# Dull rheoli maetholion dan arweiniad ffermwyr.... Cyfleoedd.

Y DULL GWIRFODDOL O REOLI MAETHOLION DAN ARWEINIAD FFERMWYR

## Rheolaeth dda o'ch maetholion.

Mae deall eich pridd a gwerth maethol eich system ffermio yn hanfodol er mwyn deall eich effaith ar yr amgylchedd a gwella effeithlonrwydd eich busnes tra'n lleihau'r bygythiadau i ansawdd dŵr yng Nghymru.


Dylai ffermwyr sydd y ceisio uchafu potensial swmp eu chynhaeaf, tra hefyd yn lleihau eu costau, edrych ar gydweddu'r mewnbynnau maethol (gwrteithiau a charthion organig) i ofynion y cnwd, gan felly:

- optimeiddio swmp y cynhaeaf
- leihau'r defnydd o faetholion
- leihau colledion N, P a phridd i'r amgylchedd

## Gwybod eich priddoedd

Cyf. Model B.1.

Mae'n debyg mae dim ond 30% o briddoedd Cymru sydd ar y pH delfrydol. Mae adnabod eich priddoedd yn eich galluogi i reoli maetholion yn fwy effeithlon gan ystyried:











## MCLIA

Taenwych y
**Maint cwir**
Gan ddefyddio'r
**Cynnyrch cywir**
Yn y
**Lle cywir**
Ar yr
**Adeg cywir**

### Rhestr wirio

- samplo pridd
- cywasgiad pridd
- cynlluniau rheoli maetholion
- mapiau risg
- rhannu gwybodaeth



## Gwybod eich dalgylch

Pan fo corff dŵr yn methu o ganlyniad i lygredd gwledig gwasgaredig, gallwch ddod o hyd iddo ar-lein yn Oriel F... Arsylwi Dyfroedd Cyfoeth Nasturiol Cymru. Pecyn ar y we... ydi hwn, sydd yn eich cynorthwyo i ganfod ac ymchwilio gwybodaeth manwl ar ddalgylchoedd lleol a chyrff dŵr unigol.

Gwefan Arsylwi Dyfroedd Cymru:
**https://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/**

Mae mesur effaith cronnol rheoli maetholion ar ffermydd a newid arferion y diwydiant yn arddangos gwerth ansawdd dŵr i'n sector ni. Mae hyn yn galluogi i amaeth feincnodi ein perfformiad yn erbyn llygrwyr arfaethedig eraill a chofnodi'r holl fuddion y mae arferion ffermio da yn eu darparu, ar ein ffermydd, ac yn ein dyfrffosydd.

**Yn cynnwys cyflenwad pridd + tail organig (tail da byw, llaid carthion, treuliad, compost a gwastraff diwydiannol) nitrogen gweddilliol yn eich pridd**



## Pam canolbwyntio ar faetholion...

Cyf. Model B.1.

Mae angen gwrtaith = Gofyniad cnydau + Maetholion o ffynonellau eraill

Trwy weithio gyda rheoli maetholion ar eich fferm gellir cyflwyno buddion lluosog i'ch busnes a'r amgylchedd. Mae deall anghenion pridd a maeth eich fferm yn eich galluogi i gyfateb mewnbynnau maetholion (gwrteithiau a thail organig) â galw am gnydau. Mae hyn yn cynyddu hyblygrwydd a gwytnwch i'ch busnes gan ganiatáu i chi wasgaru slyri a thail ar yr adegau gorau a chael tawelwch meddwl nad yw eich fferm mewn perygl o lygru eich tir a'r amgylchedd ehangach.

### Buddion.....

- Llai o risgiau amgylcheddol oherwydd colledion maes o faetholion gormodol
- Gwerth gorau gwrteithiau a thail organig yn cael eu defnyddio
- Cynnyrch ac ansawdd cnydau gwell
- Arbedion cost posibl pan fydd yr holl fewnbynnau maeth yn cael eu cyfrif
- Perfformiad cnwd a da byw gwell o gyflenwad cytbwys o faetholion



## Amgylchedd

Cyf. Model B.2. / B.3. / B.5. / B.6.

Mae uchafu amgylchedd eich fferm yn medru darparu nifer o fuddion ar gyfer ansawdd dŵr a chyfleoedd yn y dyfodol i gael mynediad i nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus. Ystyriwch rhai o'r datrysiadau amgylcheddol hyn er mwyn eich helpu i reoli risgiau eich maetholion:

- Coridorau cynefin
- Lleiniau clustogi
- Ardaloedd o dir gwlyb
- Godreon caeau
- Plannu coed a chreu cynefinoedd

**FFAITH**
Mae afonydd yn draenio bron
**75%**
o arwynebedd tir y ddaear.surface.

NFU CYMRU · Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales · FUW · Llywodraeth Cymru Welsh Government · Dŵr Cymru Welsh Water

A1 FLA opportunities posters (50%) Landscape Welsh.indd 1 19/07/2019 10:48:51